

COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR CYNLLUNIO CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWDYD A'R NOS FAWRTH 18FED O AWST 2020 AM 7.30 P.M. TRWY "MICROSOFT TEAMS MEETING".

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Geraint Jones, Iwan Jones, Arwel Davies, Ceri Davies, Bari Evans, Stan Williams a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Philip Williams, Falmai Evans, Hywel Davies a'r Cynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch.

2. DDATGAN DIDDORDEB.

Cynghorydd Elfed Williams a'r ceisiadau cynllunio 6 & 7 isod.

3. CAIS CYNLLUNIO 23/2020/0576 – ADEILADU MANEGE AR GYFER DEFNYDD PERSONOL YN TAN-Y-FOEL, SARON. - Dim gwrthwynebiad.

4. CAIS CYNLLUNIO 23/2020/0067 - GWAITH PEIRIANYDDOL ARFAETHEDIG I FFURFIO LLYN PYSGOTA, LLWYBRAU MEWNOL, MAES PARCIO A GWAITH CYSYLLTIEDIG YN GAER MYNYDD CARAFAN PARK, CAER MYNYDD FARM, SARON.

Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais cynllunio oherwydd:-

A: Mae'r safle a'r lleoliad ddim yn cytuno ar y cais cynllunio.

B: Mae'r cais ddim yn cyfeirio at danc septig Capel Saron ar y tir.

C: Dim gwybodaeth ynglŷn lle mae'r dŵr i'r llyn pysgota yn dŵad.

D: Dim caniatáu i unrhyw berson aros ar y safle dros nos.

E: Does yna ddim lle i'r traffic tynnu i mewn wrth y brif fynedfa ac nid yw'r fynedfa yn ddigon llydan.

F: Mae'r ffyrdd lleol ddim yn llydan i gymered ychwaneg o traffic.

5. CAIS CYNLLUNIO 23/2020/0463 - CODI 8 UNED LLETY GWYLIAU, SWYDDFA SAFLE A GWAITH CYSYLLTIEDIG AR DIR YN THE LODGE, LLANRHAEADR.

Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais cynllunio oherwydd:-

A: Mae yna rhy gormod o unedau i'r lleoliad bach.

B: Mae yna geisiadau cynllunio am unedau tebyg eraill yn Llanrhaeadr.

C: Mi fydd eisiau sgrin i guddiad y datblygiad.

D: Mi fydd y datblygiad yn creu rhy gormod o traffic ychwanegol.

6. CAIS CYNLLUNIO 23/2020/0579 - GWAITH ADNEWYDDU I'R BASN FFYNNON BRESENNOL, FFYNNON DDŴR, PONTYDD DDŴR, PONTYDD LLWYBR COEDWIG, GAN GYNNWYS FFURFIO GRISIAU A LLWYBRAU BWRDD, ADLEOLI PANELI GWYBODAETH, FFURFIO A GWAITH CYSYLLTIEDIG YN ST DYFNOG'S WELL WOODLAND, LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH.

Dim gwrthwynebiad.

7. CAIS CYNLLUNIO 23/2020/0580 - GWAITH ADNEWYDDU I'R BASN FFYNNON BRESENNOL, FFYNNON DDŴR, PONTYDD DDŴR, PONTYDD LLWYBR COEDWIG, GAN GYNNWYS FFURFIO GRISIAU A LLWYBRAU BWRDD, ADLEOLI PANELI GWYBODAETH, FFURFIO A GWAITH CYSYLLTIEDIG (CAIS ADEILAD RHESTREDIG) YN ST DYFNOG'S WELL WOODLAND, LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH. - Dim gwrthwynebiad.